

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 11ed o Fedi 2018.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Dylan Herbert, Justin Davies, Iona Wyn Jones – Penygroes; Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Harry Wyn Owen – Talysarn; Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cynghorwyr Sir / **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas – Nebo; Erfyl Wyn Williams – Penygroes; Hefina MW Roberts – Llanllyfni.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Harry Wyn Owen – adroddiadau Cynghorwyr Sir – bysiau cyhoeddus.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Gorffennaf.** Gwyndaf yn datgan cywirdeb cofnodion a Justin yn eilio.
- 4. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Derbyniwyd adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig gan Judith Humphreys. Rhoddodd gais gerbron i'r Cyngor Cymuned fod yn rhan o bartneriaeth i wneud cais am wifi gymunedol yn Penygroes. **Penderfynwyd** cytuno, ac na fyddai unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor Cymuned. Justin Davies fydd cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar y bartneriaeth. Cafwyd adroddiad ar lafar gan Craig. Fe drafodwyd y sefyllfa bresennol gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yn ardal Dyffryn Nantlle (Harry Wyn Owen yn datgan diddordeb a gadael yr ystafell). Y Cyngor Cymuned i gysylltu efo Llywodraeth Cymru i gefnogi syniad sydd gan Sian Gwenllian ynglyn a'r gwasanaeth. Mae angen strwythur iawn i ddal y gwasanaeth i fyny. Craig yn hysbysu'r Cynghorwyr fod bosib i drigolion gael taxi yn lle gwasanaeth 5A ar ddydd Sadwrn, a bod y manylion ar wefan Cyngor Gwynedd. Trigolion yr ardal yn teimlo fod Cyngor Gwynedd wedi gadael Dyffryn Nantlle i lawr.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion** – mynwent St Rhedyw – yr arwyddion wedi eu archebu , a'r materion a godwyd wedi eu gweithredu arnynt.
- 6. Pentrefi, ac ymatebion Cyngor Gwynedd. Talysarn** Tyllau yn ffordd Bryncelyn ar ei hyd, ac angen sylw. **Llanllyfni** Llwybr Tanrallt i'r Cae Chwarae o waelod Lon Ddwr i'r cael pel droed angen ei dorri – angen cysylltu efo Alun Wyn Jones. Cwynion wedi eu derbyn am lwybrau yn ystod gwyliau'r haf – y Clerc wedi gyrru manylion i Gyngor Gwynedd, ac wedi derbyn ymateb eu bod wedi cysylltu gydag ymgwymerwr. **Penygroes** Parcio ym mhen uchaf Lon Ddwr yn parhau i greu problem. Trafodwyd trwyddedi parcio, ond y teimlad oedd na fyddai hyn yn gweithio; Gofynwyd i'r Clerc ddiolch am y gwaith ail-wynebu ar sgwar Penygroes – gwaith o safon.; Ffordd yr Orsaf – mwd ar waelod y steps – gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd gan fod y gwli ar waelod y steps wedi llenwi efo gwair, ac nad yw dwr yn mynd drwyddi bellach; Cwyn fod gwli ar Ffordd y Sir wedi blocio, a dwr yn gorlifo i selar ty ar y stryd – Judith am ddilyn i fyny; Gofyn wrth Cyngor Gwynedd am fin wrth y fflatiau sy'n wynebu garej Povey, ac hefyd bin wrth ymyl yr arosfan bws, hyn yn arbennig efo'r ffaith fod y Co-op yn symud i'r safle newydd cyfagos yn fuan.
- 7. Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymeradwywyd.
- 8. Cynllunio.** C18/0701/22/LL – 2 Bryn Eifion, Talysarn – estyiad cefn llawr cyntaf – dim gwrthwynebiad ond rhaid holi Cyngor Gwynedd os yw'r datblygiad yn amharu ar y hawl tramwy yng nghefn yr adeilad; C18/0598/22/LL – Hen Garej Povey, Penygroes – dileu amod 5 o ganiatad cynllunio sy'n ymwneud a'r fynedfa – mwy o wybodaeth wedi ei dderbyn, dim gwrthwynebiadau; C18/0754/22/LL – Uned 6A, Stad ddiwydiannol – codi uned ddiwydiannol ar gyfer defnydd swyddfa, gweithdy a storfa I fusnes adeiladu - cymeradwyo; C18/0760/22/LL – 6 Goleufryn, Ffordd yr Orsaf, Penygroes – cais ar gyfer codi modurdy preifat ar ben ei hun ac ystafell snwcer gyda storfa uwchben - cymeradwyo.
- 9. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis. Mynwentydd / Estyniad MacPelah** – rhan 2 o'r brosiect ymestyn – llwybr troed, lle called i feinciau, lle biniau, peipen ddwr, gwynebu – rhoddwyd caniatad i HW Owen ofyn wrth yr ymgwymerwr osod peipen ddwr i'r darn newydd – awdurdodwyd uchafswm o £100. Gofynwyd i'r Clerc edrych i mewn i brisiau benthyciad hir dymor, ac am y sefyllfa ariannol erbyn cyfarfod mis nesaf. Bydd angen prisiau unigol am y gwahanol agweddau o'r gwaith ar gyfer rhan 2 er mwyn pwyso a mesur. **R Williams Parry** – OP Huws yn adrodd yn ol. Bu i ymweld a'r llyfrgell genedlaethol i wneud tipyn o ymchwil pellach. Grwp wedi cyfarfod yn Nhalysarn i drafod, ond nid oedd llawer o bresenoldeb, ac efallai dim digon i warantu gwneud cais loteri. Syniad efallai fyddai cychwyn ymgyrch genedlaethol ac apel i wneud y gofeb i fyny, gyda'r nod i godi arian. Angen cysylltu efo Un Llais i holi os

gall y Cyngor Cymuned fod yng ngofal unrhyw gronfa newydd – e.e. “Crowd-Funding”. OP am alw cyfarfod arall o’r grwp.

10. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

*Ymaeb i gwyn am flerwch yn arosfa bws Penygroes – y Clerc wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd a’r blerwch wedi ei lanhau.

*Gwaith ail-wynebu sgwar Penygroes – y Clerc i ddiolch am y gwaith.

*Llinellau melyn Penygroes – gyrru yr ohebiaeth ymlaen i Erfyl er mwyn cadarnhau fod y lleoliad yn gywir. Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio, a chadarnhau fod y llinellau yn cyd-fynd a’r rhybuddion cyfredol.

*Ymarferiad Ffordd Gwynedd a’r Gwasanaeth Cyllunio. Ymateb yn ol – amseriad ceisiadau; pwynt cyswllt yn yr Adran; penderfyniad cyn ymgynghori.

*Seddi gweigion Talysarn – dim cais am etholiad – cadarnhad y dylai’r Cyngor Cymuned gyfethol. I’w roi yn adorddiad Llau, a’r Rhybudd Cyfethol i’w roi yn Ganolfan Talysarn.

***Arall**

*Cyfarfod nesaf Un Llais Arfon Dwyfor 12/9. Er gwybodaeth.

*Cefnogi Hybu’r Gymraeg – Ymchwiliad i’r Cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach. Er gwybodaeth.

*Perfformiad Theatr ‘Pop-Up’ byw ym Mhenygroes dros yr Haf. Yr wybodaeth wedi ei roi i’r Cyngorhwyfwr.

*Adroddiad Blynyddol Grwp Cynffin. Ar y bwrdd.

*Cais am Dystiolaeth – Darparu Tai Drwy’r System Gynllunio. Er gwybodaeth.

*Ymgynghoriad Cychwynnol Cynllun Eryri – Parc Cenedlaethol Eryri. Er gwybodaeth.

*Copiau o Orchymyn Cefnffordd – Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd. Er gwybodaeth.

*Nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Hydref 2018. Er gwybodaeth.

*Comisiwn Ffiniau Cymru – Adroddiad Argymhellion Terfynnol ar gyfer Arolwg 2018. Er gwybodaeth.

*Cais am wybodaeth – effaith y ffordd osgoi ar fusnesau y Dyffryn. Darllenwyd yr ebost.

11. Goleuadau Nadolig Cafwyd y map yn ol gan Gwyndaf ar gyfer lleoliadau boesus trydan i Llanllyfni.

Gofynwyd i’r Cyngorhwyfwr yrru eu ceidiadau i Dylan Herbert i basio’r wybodaeth yn ol i’r swyddog yng Nghyngor Gwynedd. Awgrymwyd 6 i bob pentref, ac 8 i Benygroes. Unwaith bydd y boesus i fyny, ni fydd cost trydan na ‘standing charge’ i’r Cyngor Cymuned. Ni fyddai rhaid cael contractiwr i osod y goleuadau, a byddai hyn yn arbed cryn dipyn o arian yn y pen draw.

12. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Trafod fis nesaf – y Clerc i yrru templed i bob Cyngorhwyfwr ymlaen llaw.

13. Biniau Halen – cafwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn ein hysbysu y byddai cost o £40 i lenwi bin halen ar ddechrau’r Gaeaf, ac y byddai unrhyw fin halen sydd ddim yn cael ei lenwi ganddynt yn cael ei dynnu o’r safle. Cafwyd cais swyddogol am finiau i Nebo – eilwyd y cynnig yma. OP Huws am gysylltu efo lleoliadau’r biniau sydd angen eu llenwi. Gofynwyd i’r Cyngorhwyfwr eraill edrych ar eu pentrefi er mwyn penderfynu os oes angen cadw rhai o’r biniau halen. Ni roddir hawl i’r Cyngor Cymuned lenwi boesus halen gyda halen gan unrhyw ddarparwr arall. Y Clerc i yrru rhestr o leoliadau biniau halen i’r Cyngorhwyfwr.

14. Dysgwyr y Dyffryn (OP) Siomedig sut y mae pethau wedi mynd ar ol rhoi’r gyfrifoldeb drosodd. Agor y drafodaeth. Cynnig rhywun o’r Brifysgol i drafod strwythur ar lefel y Dyffryn fis Tachwedd – cynllun dysgu Cymraeg.

15. Clwb Ieuentid Penodwyd Erfyl a Justin i gynrychioli’r Cyngor Cymuned ar y grwp trafod. Gofynwyd i’r Clerc gynnig i Gyngor Gwynedd cael peiriannau parcio ar y maes parcio dros y ffordd i Garej Povey yn uniongyrchol ar gyfer ariannu Clwb Ieuentid Ardal Dyffryn Nantlle.

16. Gloddfa Glai – Ystafelloedd Newid. Darllenwyd yr ebost. Nid oedd manylion wedi eu gyrru am ddarparwr trydan yr adeilad. Awgrymwyd nad oedd bodlonrwydd ganddynt i ymrwymo i les is-osod efo’r Cyngor Cymuned. Harry Wyn Owen wedi derbyn pris am drwsio’r llechi ar y to. Gofynwyd i’r Clerc yrru copi o’r les i Harry, a byddai ef yn trafod gyda chynrychiolydd y Clwb Pel Droed.

17. Pentrefi: Llanllyfni Parcio – dim i’w adrodd yn ol; Baw Cwn – awgrymu i Gyngor Gwynedd wneud fel sydd yn cael ei weithredu yn Ne Cymru, sef bod unrhyw un sydd yn cerdded ei gi heb fagiau baw cwn yn cael dirwy o £200 yn y fan a’r lle.

18. Llwybrau a Mynwentydd. Arwyddion dim cwn Y Clerc i ofyn am 6 arwydd ‘Dim Cwn’ i’w rhoi ar giatau’r mynwentydd.; Caniatad dyluniad carreg fedd – cadarnhawyd fod cael dyluniad ar gefn carreg fedd yn dderbyniol; Cwyn am llwybr Bryn Teg/Graianfryn – gyrrwyd y gwyn ymlaen i Gyngor Gwynedd; Llwybr 82 a Llwybr 106 – gyrrwyd y gwyn ymlaen i Gyngor Gwynedd. I’w roi yn Lleu – ymgyrch gwrth-blastig yn cael ei lansio ym mynwent Gorphwysfa. Bydd biniau pwrpasol yn caeu eu rhoi yno, a mae’r Cyngor yn awyddus i’r trigolion gyd-weithredu er mwyn lleihau llygredd. Treialu am 3 mis.

19. Materion yn ymwed a'r heddlu. Yr Heddlu i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor fis Hydref. Gofynwyd i'r Cynghorwyr yrru unrhyw gwestiynnau sydd ganddynt dan sylw i'r Clerc ymlaen llaw, fel bod yr Heddlu yn ymwybodol beth fydd i'w drafod.

20. Materion ariannol*Anfonebau: A Johnson – derbynebau £16.08; A Johnson – Ffon/Rhyngrwyd (2 fis) £50; Scottish Power £14.60 a £25.36. **Cadarnhad** ail daliad Praesept £20180. Derbyn.